# Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

**2018 dccc 1**

*Cyffredinol*

## 11 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon ac adrannau 1, 8, 9, 10 a 12 i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw adrannau 2 i 5 i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw adrannau 6 a 7 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu diwrnod i unrhyw un neu ragor o adrannau 6 neu 7 ddod i rym sydd cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(5) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon wneud darpariaeth ddarfodol neu drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018, Adran 11.